

Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

Cytundeb Prosesu ar y Cyd

Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn.....	3
2	Partneriaid sy'n prosesu ar y cyd	3
3	Rhesymeg a sail dros brosesu ar y cyd	3
4	Ceisiadau am brosesu	4
5	Gwybodaeth i'w phrosesu.....	5
6	Datgelu a hawl mynediad	5
7	Rhwymedigaethau ar yr heddlu cynhaliol.....	6
8	Adolygu'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn	6
	Atodiad A – Rhestr Termau	7
	Atodiad B – Rhestr o'r Prosesu sy'n Mynd Rhagddo.....	9

Statws y ddogfen hon

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar 19/11/2021 ac mae'n weithredol o'r dyddiad hwnnw. Gall gael ei disodli gan Raglen Ysgolion Heddlu Cymru yn unol ag adran 8. Mae'r copi diweddaraf o'r ddogfen hon bob amser ar gael yn:

<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-cpc>

Saesneg / English Language

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. / This document is available in English.

<https://schoolbeat.cymru/documents/wpsp-jpa>

1 Cyflwyniad i'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn

- 1.1 Paratowyd y Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn i gefnogi'r broses o weithredu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn rheolaidd mewn heddluoedd sy'n bartneriaid yn y rhaglen.
- 1.2 Diben y cytundeb hwn yw esbonio'r sail gyfreithiol dros y cydweithrediad rhwng yr heddluoedd sy'n bartneriaid a'r cymorth y maent yn ei roi i'w gilydd i gefnogi rhaglen genedlaethol gydgysylltiedig.
- 1.3 Mae heddluoedd sy'n bartneriaid yn gweithredu'r cytundeb hwn yn unol â'u dyletswyddau i atal troseddau, ymchwilio iddynt, eu canfod a'u herlyn ac i weithredu cosbau troseddol a diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd a'u hatal.

2 Partneriaid sy'n prosesu ar y cyd

- 2.1 Mae'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn yn cwmpasu prosesu gwybodaeth gan ac ar ran y sefydliadau canlynol:

Heddlu sy'n bartner	Rheolwr cyfrifol
Heddlu De Cymru	Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion (Materion Heddlu De Cymru) Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion (Materion polisi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru)
Heddlu Dyfed-Powys	Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion
Heddlu Gogledd Cymru	Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion
Heddlu Gwent	Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion

- 2.2 Mae pob heddlu sy'n bartner yn gyd-reolyddion o dan y Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn.
- 2.3 Mae prosesu o'r fath yn digwydd fel rhan o'r broses barhaus o weithredu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru o fewn heddluoedd sy'n bartneriaid.

3 Rhesymeg a sail dros brosesu ar y cyd

- 3.1 Mae heddluoedd sy'n bartneriaid yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn dilyn polisi cyson o ran cyswllt yr heddlu ag ysgolion ledled Cymru. Mae'r tebygrwydd rhwng rhaglenni partneriaid yn golygu ei bod yn aml yn fanteisiol iawn gweithredu un system i storio a phrosesu data'r rhaglen.
- 3.2 Mae'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn hefyd yn galluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus i reoli a chyflawni Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

- 3.3 Caiff gwybodaeth ei phrosesu o dan y cytundeb hwn at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018.
- 3.4 Caiff gwybodaeth ei phrosesu o dan y cytundeb hwn at ddibenion eraill yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- 3.5 Mae'n rhaid i wybodaeth bersonol sensitif a brosesir o dan y trefniant hwn fodloni un neu fwy o'r meini prawf Atodlen 8 yn y Ddeddf Diogelu Data. Mae'r meini prawf canlynol yn gymwys i waith Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru:
 - 3.5.1 Prosesu sy'n angenrheidiol i ddiogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg.
 - 3.5.2 Prosesu sy'n angenrheidiol i ddiogelu buddiannau allweddol i fywyd testun y data neu unigolyn arall.
 - 3.5.3 Prosesu sy'n angenrheidiol i weinyddu cyfiawnder.
 - 3.5.4 Prosesu sy'n angenrheidiol er mwyn atal twyll.
 - 3.5.5 Prosesu data personol sydd eisoes yn gyhoeddus (yn amlwg yn gyhoeddus).
 - 3.5.6 Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer hawliadau cyfreithiol.
 - 3.5.7 Prosesu sy'n angenrheidiol i lys weithredu yn ei rôl farnwrol.
 - 3.5.8 Prosesu sy'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd

4 Ceisiadau am brosesu

- 4.1 Caiff heddlu sy'n bartner (yr heddlu tarddiadol) sydd â data sy'n cael eu dal neu eu prosesu fel rhan o weithredu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ofyn i bartner arall (yr heddlu cynhaliol) gyflawni hyn ar ei ran. Gallai ceisiadau o'r fath gynnwys:
 - gweithredu cronfa ddata neu system ffurflen electronig;
 - gweithredu gwefan;
 - cyflenwi yn achos absenoldeb staff;
 - cynnal dadansoddiad ystadegol;
 - cynnal arolwg;
 - cwblhau adroddiad neu ddogfen bolisi
- 4.2 Dylai ceisiadau am brosesu o dan y cytundeb hwn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig.
 - 4.2.1 Caiff ceisiadau sy'n nodi tasg unigol eu cwblhau gan eu hymateb ysgrifenedig.
 - 4.2.2 Mae'n rhaid i geisiadau sy'n cwmpasu cyfnod penodol bennu dyddiad terfynol.
 - 4.2.3 Caiff ceisiadau sy'n mynd rhagddynt eu rhestru mewn atodiad i'r ddogfen hon.
 - 4.2.4 Dylai ceisiadau gael eu dwyn i sylw'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion.
 - 4.2.5 Mae gan heddlu sy'n bartner yr hawl i wrthod cais, er enghraifft os nad oes digon o adnoddau i gyflawni'r cais.
 - 4.2.6 Mae gan yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion yr hawl i oruchwylio, gwrthod, newid neu ddiystyru unrhyw gais.
- 4.3 Os caiff y cytundeb hwn ei ddiddymu neu os bydd unrhyw heddlu sy'n bartner yn tynnu'n ôl, mae'n rhaid i'r holl ddata a drosglwyddwyd i bartneriaid sy'n tynnu'n ôl neu a drosglwyddwyd ganddynt gael eu dileu ar systemau partneriaid eraill, ond ni fydd yn ofynnol i unrhyw bartner ddileu data y mae'n rhaid iddo eu cadw yn unol â'r gyfraith.

5 Gwybodaeth i'w phrosesu

- 5.1 Gwybodaeth o ffurflenni ymarferwyr, dangosyddion perfformiad ac ystadegau ynglŷn â gweithrediad Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.
 - 5.1.1 Ymarferwyr mewn heddluoedd sy'n bartneriaid sy'n destun y data hyn.
 - 5.1.2 Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â gweithgareddau a threfniadau rheoli ymarferwyr sy'n rhan o gyflwyno Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.
- 5.2 Gwybodaeth yn Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.
 - 5.2.1 Defnyddwyr gwasanaeth heddluoedd sy'n bartneriaid sy'n destun y data hyn.
 - 5.2.2 Mae'r wybodaeth hon yn dogfennu'r gwaith a wneir gan swyddogion heddlu ysgolion. Oherwydd natur y digwyddiadau yr ymdrinnir â nhw, mae heddluoedd sy'n bartneriaid bob amser yn trin y wybodaeth hon fel gwybodaeth sensitif bersonol.
 - 5.2.3 Gweithredir y system hon yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru
<https://schoolbeat.cymru/dogfennau/ryhc-ndsb>
- 5.3 Unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall i gyflwyno Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru o dan ddyletswyddau heddluoedd sy'n bartneriaid fel rheolyddion gorfodi'r gyfraith adran 31 y Ddeddf Diogelu Data.
 - 5.3.1 Defnyddwyr gwasanaeth heddluoedd sy'n bartneriaid sy'n destun y data hyn.
 - 5.3.2 Mae'n rhaid caniatáu i heddluoedd sy'n bartneriaid gyflawni eu cyfrifoldebau o dan gyfraith statudol a'r gyfraith gyffredin. Mae dyletswyddau o'r fath yn cynnwys gweinyddu cyfiawnder.

6 Datgelu a hawl mynediad

- 6.1 Dylai'r rhai sy'n destun data gyfeirio ceisiadau at yr heddlu partner y mae'n rhyngweithio â'i wasanaeth.
- 6.2 Caiff gwybodaeth ei datgelu o fewn fframwaith cyfreithiol Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998 ac yn unol â'r gyfraith gyffredin.
- 6.3 Yr heddlu tarddiadol yw'r rheolydd data bob amser.
- 6.4 Mae'r heddlu tarddiadol yn cytuno i ddarparu sianel ar gyfer ceisiadau cyfreithlon am wybodaeth, y bydd yr heddlu cynhaliol yn cydymffurfio â nhw mewn modd rhesymol ac amserol. Gallai ceisiadau o'r fath gynnwys:
 - cais a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
 - cais am fynediad at ddata gan y testun a wneir o dan y Ddeddf Diogelu Gwybodaeth;
 - cais am wybodaeth fel rhan o achos cyfreithiol;
 - gorchymyn llys.

7 Rhwymedigaethau ar yr heddlu cynhaliol

- 7.1 Daw heddlu sy'n bartner (yr heddlu cynhaliol) sy'n prosesu data ar gais partner arall (yr heddlu tarddiadol) yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau canlynol.
- 7.2 Dim ond ar gais yr heddlu tarddiadol y mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol weithredu, oni fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo weithredu heb gyfarwyddiadau o'r fath.
- 7.3 Mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol sicrhau bod ymarferwyr sy'n prosesu'r data yn trin data o'r fath yn gyfrinachol.
- 7.4 Mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol gymryd camau rhesymol i ddiogelu data sy'n cael eu prosesu ar y cyd.
 - 7.4.1 Mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol fonitro ei ddarpariaethau o ran diogelwch a rhoi gwybod i'r heddlu tarddiadol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achosion o dorri cyfrinachedd gwybodaeth bersonol fel y bo'n ofynnol.
- 7.5 Dim ond o dan gontract ysgrifenedig y caiff yr heddlu cynhaliol benodi is-brosesydd.
 - 7.5.1 Dim ond gydag awdurdodiad yr heddlu tarddiadol ymlaen llaw y caiff yr heddlu cynhaliol benodi is-brosesydd, neu lle mae contract yr is-brosesydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion.
- 7.6 Mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol gynorthwyo'r heddlu tarddiadol drwy ymateb i geisiadau am ddatgelu cyfreithlon, megis ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu geisiadau am fynediad at ddata gan y testun.
- 7.7 Mae'n rhaid i'r heddlu cynhaliol ganiatáu i'r heddlu tarddiadol gynnal archwiliadau ac arolygiadau o'r ffordd y caiff data eu prosesu o dan y Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn.

8 Adolygu'r Cytundeb Prosesu ar y Cyd hwn

- 8.1 Caiff y cytundeb hwn ei adolygu bob dwy flynedd, neu'n amlach yn ôl y gofyn.
- 8.2 Yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am adolygu'r cytundeb hwn.
- 8.3 Caiff y ddogfen hon ei disodli gan fersiynau diweddarach, a ddaw i rym ar adeg eu cyhoeddi. Bwriedir defnyddio gwefan SchoolBeat.cymru i gyhoeddi diwygiadau i'r ddogfen hon.

Atodiad A – Rhestr Termiau

Term	Diffiniad
Cyd-reolydd	Pan fydd dau neu fwy o reolyddion yn penderfynu ar ddibenion a dulliau prosesu ar y cyd, fe'u gelwir yn gyd-reolyddion.
Cytundeb prosesu ar y cyd	Cytundeb y daw sefydliadau yn gyd-reolyddion drwyddo. Mae'r cytundeb yn nodi
Deddf Diogelu Data	Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn rheoleiddio'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu yn y DU. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data yn gweithredu'r darpariaethau a elwir yn GDPR y DU. Mae adran 3 o'r Ddeddf Diogelu Data yn ymwneud â phrosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith.
Defnyddiwr gwasanaeth	Term cynhwysol sy'n disgrifio'r bobl hynny sy'n dod i gysylltiad â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sy'n cofnodi gwybodaeth amdanynt. Gall sefydliadau partner gyfeirio at y bobl hynny fel y rhai sy'n destun data, disgyblion, dysgwyr, cleifion, cleientiaid, cynrychiolwyr cyfreithlon, ac ati.
Gwybodaeth bersonol	Gwybodaeth am unigolyn, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei nodi'n benodol o'r wybodaeth honno yn unig neu o'r wybodaeth honno neu wybodaeth arall sydd ar gael i'r sefydliad hwnnw. Mae'n cynnwys data personol o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf Diogelu Data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ymadawedig.
Gwybodaeth bersonol sensitif	Gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig unigolyn, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, p'un a yw'n aelod o undeb llafur, iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu gyflwr corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu unrhyw drosedd a gyflawnwyd yn ôl yr honiad, neu unrhyw weithrediadau mewn perthynas â throedd a gyflawnwyd neu yr honnwyd iddi gael ei chyflawni, penderfyniadau ar weithrediadau o'r fath neu ddedfryd unrhyw lys mewn unrhyw weithrediadau o'r fath. Mae'n rhaid i wybodaeth bersonol sensitif gael ei phrosesu at ddiben a bennir yn Atodlen 8 i'r Ddeddf Diogelu Data megis diogelu plant.

Term	Diffiniad
Heddlu cynhaliol	Sefydliad sy'n bartner yn y cytundeb hwn sy'n gweithredu fel prosesydd data, gan weithredu yn unol â chyfarwyddyd partner arall.
Heddlu tarddiadol	Sefydliad sy'n bartner yn y cytundeb hwn sy'n gweithredu fel rheolydd data, sy'n gwneud cais i bartner arall brosesu data.
Prosesydd	Person, endid cyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd.
RYHC / Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru	Rhaglen atal troseddau genedlaethol a weithredir gan Lywodraeth Cymru, Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gwent. Mae RYHC yn barhad uniongyrchol o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) a chaiff ei hysbysebu'n gyhoeddus ar wefan SchoolBeat.cymru .
Rheolydd	Person, endid cyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, yn unigol neu ar y cyd ag eraill, yn penderfynu ar ddibenion a dulliau prosesu data personol.
Swyddog heddlu ysgolion	Swyddog yr heddlu sy'n gweithio i roi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ar waith yn ei heddlu lleol. Cyfeirir at y swyddi hyn fel Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) neu Swyddogion Cyswllt Ysgolion.
Ymarferydd	Term cynhwysol sy'n disgrifio unrhyw staff sy'n gweithio i'r sefydliadau partner sy'n ymwneud â gofal defnyddiwr gwasanaeth neu sy'n darparu gwasanaethau i'r defnyddiwr gwasanaeth. Er enghraifft: swyddog yr heddlu, athro, gweithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol, gwirfoddolwr ac ati.

Atodiad B – Rhestr o'r Prosesu sy'n Mynd Rhagddo

System ffurflenni i swyddogion heddlu ysgolion

- Heddlu cynhaliol: Heddlu De Cymru
- Heddluoedd tarddiadol: Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent

Gwefan SchoolBeat.cymru

- Heddlu cynhaliol: Heddlu De Cymru
- Heddluoedd tarddiadol: Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent
- Dogfen lywodraethu: Polisiâu a Gweithdrefnau Diogelu Data Gwefan SchoolBeat

Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat

- Heddlu cynhaliol: Heddlu De Cymru
- Heddluoedd tarddiadol: Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent
- Dogfen lywodraethu: Polisiâu a Gweithdrefnau Diogelu Data Llyfr Nodiadau Digwyddiadau SchoolBeat Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

Datblygiad a chymorth technegol i Raglen Ysgolion Heddlu Cymru

- Heddlu cynhaliol: Heddlu Gwent
- Heddluoedd tarddiadol: Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru
- Natur y ddarpariaeth: 1 Aelod o staff llawn amser sy'n atebol i'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyswllt ag Ysgolion ac sy'n ei gynghori.